**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JJ/5782/19

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2019

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) Cymru 2019**

Yn unol ag adran 11A (4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10, paragraff 3, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol y cyfeirir ato uchod yn dod i rym llai na 21 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cânt eu cyflwyno. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'u hatodi er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Gwybodaeth Benodedig) Cymru 2019 ar 15 Tachwedd, a'r dyddiad y daw i rym yw 13 Rhagfyr 2019.

Ers i'r Rheoliadau gael eu gosod, cafodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ohebiaeth gan landlordiaid, asiantau a chyrff cynrychioliadol yn amlinellu eu pryderon ynghylch y Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau yn nodi gwybodaeth y mae'n rhaid i landlord ei darparu i ddarpar ddeiliad contract ac, os cyfarwyddir hynny, ei asiant gosod, cyn i flaendal cadw gael ei gymryd. Y pryderon, yn gyntaf, oedd faint o amser a fyddai gan landlordiaid ac asiantaethau gosod tai i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r Rheoliadau. Yr ail bryder oedd bod yn rhaid i'r landlord ddarparu cyfeiriad cyn i flaendal daliad gael ei gymryd oddi ar ddeiliad contract.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Penderfynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fynd i'r afael â'u pryderon drwy gyflwyno Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) Cymru 2019 (y "Rheoliadau Amgen").

Mae'r Rheoliadau Amgen wrthi'n cael eu llunio. Byddant yn diddymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Gwybodaeth Benodedig) Cymru 2019 cyn y dyddiad dod i rym, sef 13 Rhagfyr 2019, ac yn rhoi yn eu lle Reoliadau a ddaw i rym ar 28 Chwefror 2020.

Mae'r dyddiad y daw'r Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) Cymru 2019 wythdeg o ddiwrnodau o'r dyddiad y cânt eu cyflwyno. Dylai hyn fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch faint o amser a fyddai gan landlordiaid ac asiantau gosod i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r Rheoliadau. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir, pan fo blaendal cadw i gael ei dalu i landlord, y dylid darparu enw a **manylion cyswllt** y landlord hwnnw a phan fo blaendal dal i gael ei dalu i asiant, y dylid rhoi enw a **manylion cyswllt** yr asiant hwnnw.

Comisiynwyd ymchwil annibynnol i ategu'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau, ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos o hyd a gynhaliwyd rhwng 24 Mai a 19 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â'r rheoliadau gwreiddiol. Dadansoddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Memorandwm Esboniadol sydd wedi'i baratoi a'i gyflwyno, gyda'r rheoliadau newydd, i'r Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd